| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **3 CHWEFROR 2026** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2026/27** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2026/27 i'r Cyngor llawn** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD HUW WYN JONES** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |

---

**1.** Yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2026/27 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).

**2.** Bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.

**3.** Rhoddir ystyriaeth i nifer o'r risgiau ariannol a'r camau perthnasol i sicrhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol, yn Atodiad 10.

**4.** Byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau a sylwadau'r Pwyllgor pan yn cyflwyno'r adroddiad ar 10 Chwefror.

**5.** Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

**6.** Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar yr hyn dylai maint yr arbedion neu lefel y Dreth Cyngor fod, ond i sicrhau fod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

**7.** Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma a'i atodiadau, yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud argymhelliad ar gyllideb arfaethedig, ac i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar sail yr wybodaeth fydd yn cael ei gyflwyno iddynt.

**Atodiad:**
Cyllideb 2026/27 (adroddiad Cabinet 10/02/2026)